Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Newid i'r corff dynodedig sy'n goruchwylio Arolygwyr Cymeradwy (WGC 008/2024)

Dynodi pŵer i reoleiddio Arolygwyr Cymeradwy yn ystod cyfnod pontio diogelwch adeiladu.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 21 Mai 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 21 Mai 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/newid-ir-corff-dynodedig-syn-goruchwylio-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0082024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cylchlythyr rheoliadau adeiladu

Cyflwyniad

Cwmpas y Cylchlythyr hwn

Hysbysiad am newid y corff sy'n goruchwylio Arolygwyr Cymeradwy

Ymholiadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/newid-ir-corff-dynodedig-syn-goruchwylio-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0082024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cylchlythyr rheoliadau adeiladu

**Rhif y cylchlythyr**: WGC 008/2024

**Dyddiad cyhoeddi**: 21/05/2024

**Statws**: Er gwybodaeth

**Teitl**: Newid i'r corff dynodedig sy'n goruchwylio Arolygwyr Cymeradwy

**Cyhoeddwyd gan:** Kevin Davies, Rheolwr Cymhwysedd a Safonau Rheoli Adeiladu

**Ar gyfer:**

Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas yr Arolygwyr Corfforaethol Cymeradwy

**I'w anfon ymlaen at:**

Swyddogion Rheoli Adeiladu yr Awdurdodau Lleol
Aelodau Senedd Cymru

**Crynodeb:**

Dynodi pŵer i reoleiddio Arolygwyr Cymeradwy yn ystod cyfnod pontio diogelwch adeiladu.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Y Tîm Rheoliadau Adeiladu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/newid-ir-corff-dynodedig-syn-goruchwylio-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0082024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Merthyr Tudful
CF10 3NQ

Llinell uniongyrchol: 0300 060 4400

E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**
Gwefan: **Adeiladu a chynllunio**

# Cyflwyniad

1. Fe'm cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru i dynnu eich sylw at y canlynol: mae y corff dynodedig sy'n rheoleiddio Arolygwyr Cymeradwy wedi newid.

# Cwmpas y Cylchlythyr hwn

2. Mae'r Cylchlythyr hwn yn berthnasol i adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru, yn ogystal ag i weithwyr rheolaeth adeiladu proffesiynol sy'n gweithredu yng Nghymru.

# Hysbysiad am newid y corff sy'n goruchwylio Arolygwyr Cymeradwy

3. Fel rhan o'r gyfres o newidiadau a gyflwynwyd mewn perthynas â Deddf Diogelwch Adeiladu 2022 lle y bydd Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu (RBCAs) yn disodli Arolygwyr Cymeradwy at ddibenion gweithredu rheolaeth adeiladu'r sector preifat, rhoddodd Gweinidogion Cymru rybudd y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/newid-ir-corff-dynodedig-syn-goruchwylio-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0082024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

byddai dynodiad Cofrestr Arolygwyr Cymeradwy Cyngor y Diwydiant Adeiladu (CICAIR) fel y corff sy'n rheoleiddio Arolygwyr Cymeradwy yn cael ei ddirymu.

4. O 31 Mawrth 2024 peidiodd CICAIR â bod y corff a ddynodwyd i gymeradwyo arolygwyr.

5. Ar gyfer y cyfnod pontio, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi cael ei ddynodi gan Weinidogion Cymru fel y corff newydd i oruchwylio Arolygwyr Cymeradwy at ddibenion Rhan 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 a'r Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010.

6. Daeth y dynodiad hwn i rym ar 5 Ebrill 2024 a daw i ben ar 1 Hydref 2024. Ar ddiwedd y cyfnod pontio ni chaiff Arolygwyr Cymeradwy barhau i weithredu.

7. Er mai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bellach yw'r corff dynodedig ar gyfer rheoleiddio Arolygwyr Cymeradwy, ni fydd unrhyw Arolygwyr Cymeradwy newydd yn cael eu cofrestru yn ystod y cyfnod pontio, gan fod y diwydiant yn symud tuag at holl swyddogaethau rheolaeth adeiladu'r sector preifat yn cael eu cyflawni gan Gymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu.

8. Bydd rôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn hyn o beth yn cael ei chyfyngu i gofrestriadau sy'n bodoli eisoes – gan gynnwys monitro cofrestriadau sydd wedi dod i ben neu sydd wedi cael eu tynnu'n ôl – ymchwilio i gwynion a defnyddio sancsiynau lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol.

9. Bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad yr oedd CICAIR yn ei ddefnyddio yn flaenorol pan gawsant eu dynodi, a byddant yn mabwysiadu a gweithredu'r weithdrefn gwynion a'r drefn sancsiynau yr oedd CICAIR yn eu defnyddio wrth ddatrys unrhyw

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/newid-ir-corff-dynodedig-syn-goruchwylio-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0082024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gwynion a wneir mewn perthynas ag Arolygwyr Cymeradwy.

## Ymholiadau

Anfonwch unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn at:

Rheoliadau Adeiladu,
2il Lawr,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**

Yn gywir,

**Mark Tambini**

**Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu**

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/newid-ir-corff-dynodedig-syn-goruchwylio-arolygwyr-cymeradwy-wgc-0082024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.